## SEFYLLFA BYD NATUR SIR GAERFYRDDIN – GLÖYNNOD BYW A GWYFYNOD ADRAN 7 Â BLAENORIAETH

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adran 7 – Rhestrau bioamrywiaeth a'r ddyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth**.
Mae'r rhywogaethau sydd wedi'u rhestru yn y tabl hwn wedi'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o restr o rywogaethau a mathau o gynefinoedd a geir yng Nghymru. Y mae'n ystyried bod y rhain o bwysigrwydd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y wlad hon. Mae'r rhestr (rhestr A7) yn cael ei hadolygu gan LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.

Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus (ee, LlC, cynghorau) gymryd camau rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys yn Adran 7, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Drwy ddiogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn, gwella'r rheolaeth arnynt a chodi ymwybyddiaeth amdanynt, gobeithir y gellir cynnal amgylchedd natur gwydn yng Nghymru i'r dyfodol.

Y rhywogaethau Adran 7 yw'r rhywogaethau y mae Partneriaeth Natur Sir Gâr yn ystyried bod angen rhoi'r flaenoriaeth i weithredu yn eu cylch, ond mae rhywogaethau eraill wedi'u nodi ar gyfer gweithredu lleol, lle ceir ychydig o gofnodion, neu lle bo gan Sir Gaerfyrddin boblogaethau lle gellir helpu i warchod neu wella'r rhywogaeth drwy gymryd camau penodol.

Mae **cynefinoedd cysylltiedig** yn cyfeirio at y cynefinoedd Adran 7 perthnasol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yng Nghymru.

Gweler y wefan Cadwraeth Glöynnod Byw am ragor o wybodaeth a disgrifiadau manwl o rywogaethau.
Defnyddiwyd pob llun gyda chaniatâd.

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| *Boloria selene* — britheg berlog fach<br><br>© Jim Asher Butterfly Conservation | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir a gweundir yr iseldir/coetir agored<br>• **Statws presennol:** Rhestr Goch Prydain Fawr - Bregus<br>Bu gostyngiad amlwg yng nghofnodion yn y sir. Ychydig iawn o gofnodion 'diweddar' (2015-2019) a geir ar gyfer y glöyn byw hwn yn Sir Gaerfyrddin<br>• **Tueddiadau yng Nghymru:** dosbarthiad (1987-2019)- 69%↓/ mynychder (1992-2019) -76%↓<br>• **Bygythiadau:** colli glaswelltir llaith, llawn blodau yn sgil amaethu dwys.<br>I raddau llai, mae rhoi'r gorau i waith rheoli coetir (a oedd yn flaenorol wedi creu llennyrch heulog, blodeuog) hefyd wedi cael effaith negyddol.<br>• **Statws Blaenoriaeth Gwarchod Glöynnod Byw yn Sir Gaerfyrddin: UCHEL**- yn diflannu'n dawel. | • Mae gwarchod yr ardaloedd o laswelltir amrywiol sy'n weddill yn flaenoriaeth i'r glöyn byw hwn ac i fywyd gwyllt cysylltiedig.<br>• Annog cofnodi'r glöyn byw.<br>• Atal coed rhag cael eu plannu ar gynefin a nodwyd. |
| *Coenonympha pamphilus* — gweirlöyn bach y waun<br><br>© Maggie James | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir/gweundir yr ucheldir/yr arfordir<br>• **Statws presennol:** Rhestr Goch Prydain Fawr - Bregus<br>• Yn dal yn gymharol gyffredin ledled y sir, ond yn sicr bu colledion mewn ardaloedd lleol yn sgil amaethu dwys.<br>• **Tueddiadau yng Nghymru:** dosbarthiad (1976-2019) - 63%↓/ mynychder (1976-2019) **1%**<br>• **Bygythiadau:** colli a 'gwella' glaswelltir lled-naturiol a llai o bori.<br>• **Statws Blaenoriaeth Gwarchod Glöynnod Byw yn Sir Gaerfyrddin:** CANOLIG | • Cadw a rheoli glaswelltir lled-naturiol yn briodol.<br>• Atal colli cynefin pellach<br>• Targedu cynefinoedd i'w hadfer er mwyn caniatáu mwy o gysylltedd fel bo modd iddynt wasgaru i'r dirwedd ehangach. |
| *Cupido minimus* - glesyn bach<br><br>© George Tordorff | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir / Tir Llwyd (ac yn anaml bellach, Glaswelltir yr Iseldir).<br>• **Statws presennol:** Rhestr Goch Prydain Fawr - Bron dan fygythiad<br>• Ceir poblogaethau cryf ym mhrif systemau twyni Pen-bre a Thalacharn/Pentywyn, yn ogystal â niferoedd llai yn yr ardaloedd twyni llai fel Gwarchodfa Natur Leol Twyni Doc y Gogledd. Anaml iawn y'i gwelir ar safleoedd tir llwyd/glaswelltir.<br>• **Tueddiadau yng Nghymru:** anhysbys (diffyg data - mae angen mwy o gofnodion).<br>Dosbarthiad yn y DU (1983-2019) -43%, mynychder (1978-2019) +5%<br>• **Bygythiadau: colli a 'gwella' glaswelltir lled-naturiol a** | • Bydd gwaith rheoli parhaus, fel tynnu helyg y môr ac ailgyflwyno tir pori yn creu glaswelltir â chyfoeth o flodau ar y twyni a fydd o fudd o'r glöyn byw hwn.<br>•Annog plannu/hau'r blucen felen mewn lleoliadau addas<br>• Annog cofnodi a monitro'r glöyn byw. |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| | llai o dir pori.<br>• **Statws Blaenoriaeth Gwarchod Glöynnod Byw yn Sir Gaerfyrddin: Canolig/Uchel**- Dosbarthiad cyfyngedig iawn yn y Sir | |
| *Erynnis tages* - gwibiwr llwyd<br><br>© George Tordorff | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir Arfordirol/Tir Llwyd yr Iseldir<br>• **Statws presennol:** Rhestr Goch Prydain Fawr –<br>• Y prif ardaloedd yw glaswelltir ar dwyni'r gefnwlad ym Mhen-bre a Thalacharn/Pentywyn, ond ceir poblogaethau mewn mannau eraill. Mae'n arbennig o hoff o safleoedd tir llwyd llawn blodau, fel hen waith glo brig yn Ffos-las ger Trimsaran.<br>Cofnodwyd yn 2022 ym Mharc Coetir Mynydd Mawr.<br>• **Tueddiadau yng Nghymru:** dosbarthiad (1992-2019) +6% / mynychder (2004-2019) +42% (ar raddfa'r DU – dosbarthiad wedi lleihau'n sylweddol)<br>• **Bygythiadau:** Fel sy'n wir am rywogaethau eraill sy'n dibynnu ar gynefinoedd agored o'r fath, mae'n bosibl fod angen ymatal rhag plannu coed mewn modd amhriodol, a rheoli'r dilyniant naturiol.<br>• **Statws Blaenoriaeth Gwarchod Glöynnod Byw yn Sir Gaerfyrddin:** CANOLIG | • Nodi cynlluniau rheoli arbrofol ar safleoedd tir llwyd addas.<br>• Atal colli cynefin pellach.<br>• Targedu cynefinoedd i'w hadfer er mwyn caniatáu mwy o gysylltedd fel bo modd iddynt wasgaru i'r dirwedd ehangach. |
| *Eurodryas aurinia* — britheg y gors<br><br>© Richard Pryce | • **Cynefin cysylltiedig:** Gweundir a glaswelltir yr iseldir. Yng Nghymru, glaswelltir niwtral/asidig llaith yw cynefin y glöyn gan amlaf, a thamaid y cythraul yw planhigyn cynhaliol y larfa.<br>• **Statws presennol:** Rhestr Goch Prydain Fawr - Bregus<br>• De-orllewin Cymru yw un o'r cadarnleoedd bellach. Mae'r rhan fwyaf o gytrefi Sir Gaerfyrddin yn cydgasglu yn ne-ddwyrain y sir, gyda chytrefi sydd wedi'u darganfod yn ddiweddar o amgylch Brechfa, Dyffryn Aman a Phumsaint.<br>• Er mai bach yw llawer o'r cytrefi, mae gwaith arolwg ac asesiad cynefinoedd diweddar wedi dangos eu bod gyda'i gilydd yn cyfrannu'n sylweddol at y boblogaeth genedlaethol.<br>• **Tueddiadau yng Nghymru : dosbarthiad (1994-2019) +8%** mynychder (1990-2019) -61%🡇<br>• **Bygythiadau:** Y prif ffactor wrth wraidd y gostyngiad mewn niferoedd yw lefelau pori amhriodol; y prif ffactor wrth wraidd y gostyngiad mewn niferoedd yw lefelau amhriodol o bori; yn benodol, diffyg pori sydd wedi rhoi cyfle i'r porfeydd ordyfu ac i brysgwydd ymledu yn sgil hynny. Ffactor arall yw colli cynefinoedd a thiroedd cysylltiol yn sgil datblygu.<br>• **Statws Blaenoriaeth Gwarchod Glöynnod Byw yn Sir Gaerfyrddin:** UCHEL<br>• Mae prosiect ar raddfa'r dirwedd a ffurfiwyd i ddiogelu a rheoli cynefin glaswelltir corsiog ar gyfer britheg y gors o amgylch Cross Hands yn rheoli 22 o safleoedd bellach, sef cyfanswm arwynebedd o 125 ha (2018). | • Rhaglen Rhywogaethau Dan Fygythiad BC yng Nghymru 2021-26<br>• Parhau i arolygu cynefinoedd newydd posibl ar gyfer britheg y gors a monitro poblogaethau allweddol. • Cygor ac arweiniad ar bori priodol.<br>• Rheoli prysgwydd ar safleoedd sydd wedi cael eu tanbori.<br>• Atal colli cynefin pellach.<br>• Targedu cynefinoedd i'w hadfer er mwyn caniatáu mwy o gysylltedd fel bo modd iddynt wasgaru i'r dirwedd ehangach (gwarchod y fetaboblogaeth) |
| *Hipparchia Semele* — gweirlöyn llwyd | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir / Safleoedd Tir Llwyd / glaswelltir a gweundir yr iseldir<br>• **Statws presennol:** Rhestr Goch Prydain Fawr -Mewn perygl<br>• Gan fod yn well gan y rhywogaeth hon laswelltiroedd mwy cras lle ceir daear moel agored, mae'r prif boblogaethau yn y prif systemau twyni | • Sicrhau rheolaeth briodol ar ardaloedd allweddol er mwyn cynnal llystyfiant agored, gwasgaredig gyda digonedd o weiriau mân a digon o dir moel.<br>• Rheoli prysgwydd i atal olyniaeth lle na cheir tir pori nac aflonyddwch naturiol. |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| <br>© P. Gadsby | (ynghyd â'r systemau llai) ar hyd yr arfordir. Fe'i ceir hefyd ar safleoedd tir llwyd cyfnod cynnar, sy'n debyg i'r cynefin uchod o ran eu nodweddion agored, a hefyd o amgylch llecynnau creigiog ar weundir / ucheldir, fel rhannau o'r Mynydd Du a Mynydd Llangyndeyrn.<br>• **Tueddiadau yng Nghymru : dosbarthiad (1990-2019) -74%** mynychder (1976-2019) -94% 🡻<br>• **Bygythiadau:** Colli gweundir a glaswelltir lled-naturiol a gostyngiad mewn tir pori. Cynefinoedd yn dirywio yn sgil olyniaeth ecolegol a dyddodiad nitrogen, gan arwain at boblogaethau bach sy'n fwyfwy ynysig.<br>• Mae poblogaethau'r mewndir wedi gostwng dros yr hafau diweddar (efallai yn sgil rhai tymhorau glawog?)<br>• **Statws Blaenoriaeth Gwarchod Glöynnod Byw yn Sir Gaerfyrddin: Uchel (*ar hyn o bryd* yn gwneud yn dda ar yr arfordir, ond wedi diflannu ar y mewndir. Mae'n werth ystyried a yw'n UCHEL oherwydd y cwmpas cyfyngedig).** | • Annog cofnodi a monitro pellach |
| *Lasiommata megera* - gweirlöyn y cloddiau<br><br>© Maggie James | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir/Safleoedd Tir Llwyd<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, dyma rywogaeth arall sy'n ffafrio amodau eithaf agored, heulog fel cloddiau llawn blodau sy'n wynebu'r De neu'r De-orllewin, gweundir creigiog, safleoedd tir llwyd ac ardaloedd tebyg.<br>• **Statws presennol:** Rhestr Goch Prydain Fawr -Mewn perygl<br>• Wedi prinhau yn y sir dros y degawd diwethaf.<br>• **Tueddiadau yng Nghymru:** dosbarthiad (1980-2019) -65% / mynychder (1976-2019) -52%<br>• **Bygythiadau:** Colli glaswelltir lled-naturiol, gostyngiad mewn tir pori a newidiadau'r hinsawdd.<br>• **Statws Blaenoriaeth Gwarchod Glöynnod Byw yn Sir Gaerfyrddin:**<br>**UCHEL wedi'i chyfyngu i'r arfordir, a diflannu ar y mewndir.** | • Fel uchod ar gyfer y gweirlöyn llwyd<br>• Tir pori os oes modd, i gynnal y microhinsawdd sydd ei angen ar gyfer y larfa.<br><br>• Annog cofnodi a monitro pellach |
| *Pyrgus malvae* — gwibiwr brith<br><br>© George Tordorff | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir/Glaswelltir a Gweundir yr Iseldir<br>• Wedi'i chyfyngu bron yn gyfan gwbl i laswelltiroedd sefydlog ar systemau twyni'r arfordir, lle mae'r lindys yn dibynnu ar fefus gwyllt. Mae poblogaethau llai i'w cael o bryd i'w gilydd ar y mewndir, neu ar safleoedd tir llwyd, neu lle ceir swm rhesymol o blanhigion addas i'w bwyta, fel ar chwareli agored lle mae calchfaen carbonifferaidd yn brigo i'r wyneb.<br>• Rhywogaeth sy'n brin iawn yng Nghymru; mae cytrefi Sir Gaerfyrddin yn rhan bwysig o'r boblogaeth genedlaethol.<br>• **Statws presennol:** Rhestr Goch Prydain Fawr - Bregus<br>• **Tueddiadau yng Nghymru:** Anhysbys (diffyg data)<br>Dosbarthiad y DU (1976-2019) – 48%, mynychder (1976-2019) -49%• **Bygythiadau:** • Fel sy'n berthnasol yn achos llawer o löynnod byw, mae atal prysgwydd neu goetir rhag ymffurfio yn elfen allweddol o ran rheoli cynefinoedd.<br>• **Statws Blaenoriaeth Gwarchod Glöynnod Byw yn Sir Gaerfyrddin:** UCHEL | • Sicrhau rheolaeth briodol o safleoedd i gynnal cyflenwad parhaus o laswelltir gwasgaredig gyda digon o dir moel, llystyfiant talach ar gyfer clwydo a phrysgwydd gwasgaredig ar gyfer cysgod.<br>• Monitro pob poblogaeth.<br>• Atal colli cynefin pellach.<br>• Targedu cynefinoedd i'w hadfer er mwyn caniatáu mwy o gysylltedd fel bo modd iddynt wasgaru i'r dirwedd ehangach (gwarchod y fetaboblogaeth) |
| *Satyrium w-album* — brithribin wen | • **Cynefin cysylltiedig:** Coetir/Tir Fferm/Parcdir.<br>• **Statws presennol:** Rhestr Goch Prydain Fawr - Bregus<br>• Mae'r brithribin w wen yn rhywogaeth leol yn Sir Gaerfyrddin, sy'n adlewyrchu dosbarthiad llwyfenni yn y sir. Yn Sir Gaerfyrddin, yr arfordir a Dyffryn Tywi yn bennaf, ond oni bai y chwilir yn unswydd am y glöyn hwn prin y'i gwelir gan ei fod yn byw ar ganghennau uchaf y coed. Yn ôl pob tebyg mae tangofnodi difrifol wedi bod yn achos y rhywogaeth hon, ac mae'n | • Nid oes angen unrhyw trefniadau rheoli penodol ar y rhywogaeth, a llwyddodd i oroesi clefyd llwyfen yr Isalmaen yn y 1970au (ac mae llwyfenni lleol wedi gwella'n dda ers hynny).<br>• Rhywogaeth sy'n brin o ddata – annog cofnodion lleol. Gellid canolbwyntio ar chwilio am lwyfenni i ddechrau, er mwyn gwella'r wybodaeth amdanynt yn y Sir, a |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| <br>© Jim Asher Butterfly Conservation | debygol bod y glöynnod hyn yn byw ledled y sir yn y coetiroedd a'r perthi hynny sy'n gyforiog o lwyfenni.<br>• **Tueddiadau yng Nghymru:** Anhysbys (diffyg data)<br>Dosbarthiad yn y DU (1991-2019) -5%, mynychder (1976-2019) -78%<br>• **Bygythiadau: Prinder aildyfiant llwyfenni yn cyfyngu ar gytrefu.**<br>• **Statws Blaenoriaeth Gwarchod Glöynnod Byw yn Sir Gaerfyrddin: Canolig** | wedyn defnyddio hynny'n sail i chwilio am y frithribin wen.<br>• Rheolaeth ystyriol ar goedwigoedd (llennyrch/rhodfeydd/cynefinoedd ymylon meddal i ddarparu mwy o adnoddau) |
| *Thecla betulae* - brithribin frown<br><br>© Richard Smith | • **Cynefin cysylltiedig:** Tir Fferm (gwrychoedd)<br>• **Statws presennol:** Rhestr Goch Prydain Fawr - Bregus<br>Mae tua 60% o'r safleoedd a gofnodwyd yn ddiweddar (ers 1995) yng Nghymru i'w cael yn Sir Gaerfyrddin. Hyd y gwyddom, mae ei chwmpas yn ymestyn yn fras i'r gogledd o linell prif ffordd yr A40, ac mae llond llaw o safleoedd i'w cael ar ffiniau'r de, yn Nyffryn Tywi yn bennaf.<br>• Mae'r crynoadau mwyaf adnabyddus yn nyffrynnoedd Tywi a Theifi a'u llednentydd.<br>• **Tueddiadau yng Nghymru:** dosbarthiad: cofnodwyd ei bod<br>yn bridio mewn 22 o sgwariau grid 10km yn y cyfnod 2005-<br>2009 ond dim ond mewn 13 ohonynt yn ystod 2015-2019/poblogaeth: (2004-2019) -39%<br>• **Bygythiad:** Rhywogaeth sydd dan fygythiad mawr. Tybir taw'r prif ffactor sy'n effeithio ar y rhywogaeth yw ffustio gwrychoedd yn fecanyddol yn flynyddol a thocio blaen dyfiant a chrachgoed y tu mewn i derfynau caeau, ynghyd â newidiadau o ran rheoli coetiroedd, gan gynnwys colli cynefinoedd ar gyrion coetiroedd.<br>Mae poblogaeth dyffryn Tywi wedi gostwng yn sylweddol – gan fod y cynefin dodwy wyau wedi'i golli yn sgil ffustio gwrychoedd fwy na thebyg.<br>• **Statws Blaenoriaeth Gwarchod Glöynnod Byw yn Sir Gaerfyrddin:**<br>UCHEL | • Mae gwirfoddolwyr Gwarchod Glöynnod Byw wedi cynnal arolygon wyau blynyddol ers dros 10 mlynedd ac yn gweithio gyda thirfeddianwyr ar reoli safleoedd ar gyfer y glöynnod hyn.<br>• Parhau i gefnogi gwirfoddolwyr i gyfrif wyau/rheoli cynefinoedd yn y sir.<br>• Annog cynnwys y ddraenen ddu mewn cynlluniau plannu gwrychoedd.<br>• Codi ymwybyddiaeth ynghylch cynlluniau torri ar gylchdro.<br>• Atal colli cynefin pellach<br>• Targedu gwaith plannu i annog gwasgariad naturiol |
| **Adran 7 Rhywogaethau o Wyfynod yn Sir Gaerfyrddin y mae angen gweithredu yn eu cylch**<br>DS Mae'r rhan fwyaf o rywogaethau cyfredol o wyfynod A7 wedi'u rhestru er 'Ymchwil yn unig' ac nid ydynt wedi'u cynnwys yma. Y rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys yma yw rhywogaethau A7 a gofnodwyd yn y sir lle gellid helpu i gynnal a gwella eu poblogaethau drwy gymryd camau cadarnhaol lleol. Ar gyfer rhywogaethau eraill o wyfynod, cyflwyno cofnodion yw'r cam â blaenoriaeth. | | |
| *Anania funebris*<br>du smotiau gwyn | • **Cynefin cysylltiedig:** yn gysylltiedig a'r unig blanhigyn y mae'n ei fwyta, y wialen aur. Ceir hyd iddo hefyd mewn llennyrch ac ar ymylon coetiroedd, hefyd ar glogwyni a llechweddau geirwon, yn enwedig ar galchfaen.<br>• **Statws presennol:** Roedd y gwyfyn hwn sy'n hedfan yn ystod y dydd yn arfer bod yn gyffredin dros ardal eang, ond nid yw bellach ond wedi'i gofnodi ar ddau safle - Coedwig Pen-bre a Chefn Carmel (cofnodion diwethaf 2017/18).<br>• **Tueddiadau yng Nghymru:** anhysbys; wedi prinhau yn yr 20fed ganrif yn sgil colli cynefin<br>• **Bygythiad:** Mae'n ymddangos bod y wialen aur yn prinhau, a hynny i raddau mwy o bosib mewn ardaloedd o goetir a phrysgwydd, lle mae'n diflannu wrth i'r amodau droi'n rhy gysgodol.<br>• **Statws Blaenoriaeth Gwarchod Glöynnod Byw yn Sir Gaerfyrddin:**<br>UCHEL | • Ail-arolwg o Garnedd Carmel Cyf. Grid SN583157 (Tirwedd â Blaenoriaeth BC: Crib Calchfaen Sir Gaerfyrddin). Tua 5m i'r gogledd-orllewin o Rydaman ac ychydig i'r de o bentref Carmel<br>• Annog rheolaeth briodol i ledu rhodfeydd/llennyrch er mwyn annog planhigion sy'n cynnal y larfa. |
| *Hemaris tityus*<br>gwalchwyfyn gwenynaidd ymyl gul | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir gwlyb<br>• **Statws presennol:** Anaml y mae wedi cael ei gofnodi, | • Annog brithwaith o dir bori ar safleoedd gan fod angen glastiroedd byrrach ar y |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| | ond ceir cofnodion o amryw o safleoedd yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan gynnwys Coedwig Pen-bre (lle cadarnhawyd eu bod yn bridio), Mynydd Sylen a Pharc Coetir Mynydd Mawr.<br>• **Tueddiadau yng Nghymru:** anhysbys; wedi prinhau yn y gorffennol er bod tystiolaeth bod y boblogaeth wedi'i hadfer yn ddiweddar, gyda chofnodion o amryw o safleoedd newydd yn y 5 mlynedd diwethaf.<br>• **Bygythiad:** Colli a darnio cynefinoedd - glaswelltir llaith sy'n llawn rhywogaethau. Yn rhannu'r un planhigyn bwyd, tamaid y cythraul, â britheg y gors; hefyd dan fygythiad oherwydd rheolaeth amhriodol (ee, defaid yn pori).<br>• **Statws Blaenoriaeth Gwarchod Glöynnod Byw yn Sir Gaerfyrddin:**<br>UCHEL | rhywogaeth hon na britheg y gors (hefyd yn rhannu'r un planhigion cynnal larfa). |
| *Adscita statices*<br>y coediwr<br><br>© J. Baker | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir gwlyb<br>• **Statws presennol:** Wedi'i gofnodi'n achlysurol yn y sir, ac ers 2000 ceir nifer rhesymol o gofnodion o'r gwyfyn hwn sy'n hedfan yn y dydd. Cafwyd cofnod newydd o Barc Coetir Mynydd Mawr ym mis Mai 2022.<br>• **Tueddiadau yng Nghymru:** anhysbys; wedi prinhau yn y gorffennol yn sgil colli glaswelltir gwlyb.<br>• **Bygythiad:** Colli a darnio cynefinoedd - glaswelltir llaith sy'n llawn rhywogaethau; rheolaeth amhriodol hefyd (nid yw'n goddef pori dwys)<br>• **Statws Blaenoriaeth Gwarchod Glöynnod Byw yn Sir Gaerfyrddin:**<br>UCHEL | • Annog cofnodion gan y cyhoedd - chwilio ar ddolydd llaith sy'n cynnwys suran a dringol.<br>• Codi ymwybyddiaeth – rhywogaethau sy'n hedfan yn y dydd.<br>• Pori priodol ar gynefin glaswelltir. |